

Addendum to Carer's Handbook, November 2014

Please note the following information has changed in light of the Social Services and Well-Being Act which came into force on 6 April 2016.

Carer's Needs Assessment

You have a right to request a Carer's Assessment if you provide or intend to provide unpaid care for an adult or disabled child. The assessment looks at your support needs as a carer. When carrying out the assessment the local council must:

- seek to identify how caring affects your life and what outcomes you wish to achieve to look after your own well-being
- assess whether the provision of support, preventative services, information, advice or assistance could contribute to help you achieve those well-being outcomes.
- consider what well-being outcomes you wish to achieve and work with you to produce solutions

To request a Carer's Assessment:

If you care for someone living in the Vale of Glamorgan call

Contact One Vale on 01446 700111

If the person you care for lives in Cardiff call

the First Point of Contact on 029 20 234 234.

Children and Families Assessment

Children and young people under the age of 18 who have care needs, or carers under the age of 18 (young carers) are assessed under a different system than adults, but the process should allow for the same outcomes. A personal plan should be produced for each child in the family, both for those who need care and those who carry out caring responsibilities.

Parents who care for a disabled child under the age of 18, are also assessed under this system. However, if you do not think your needs were considered during that assessment, you have the right to request a separate Carer's Assessment, particularly if your needs in relation to education, employment and training were not addressed.

For an assessment contact:

Vale of Glamorgan - Contact One Vale on **01446 700111**

Cardiff – Children's Access Point on **029 2053 6490**

Eligibility Criteria

To meet the eligibility criteria for a local council to provide, or arrange to provide support, the well-being outcomes to which a need must relate are set out in the regulations as:

- ability to carry out self-care or domestic routines
- protection from abuse or neglect
- involvement in work, education, learning or in leisure activities
- maintenance or development of family or other significant personal relationships
- development and maintenance of social relationships and involvement in the community
- fulfilment of caring responsibilities for a child

The regulations state that you will meet the eligibility criteria if you cannot meet your need:

- alone
- with the support of others who are willing to provide that support, or
- with the assistance of services in the community to which the adult has access; and
- the adult is unlikely to achieve their personal outcomes unless the local council provides or arranges care and support to meet the need

Paying for Services

If the person you care for is assessed and is eligible to receive services, then they may have to contribute towards the costs. You cannot be asked to contribute towards services for the person you care for, but if you are married to them or you are their partner, any joint income and savings will be taken into consideration. Costs of services vary, however charges are based on their ability to pay and they may be entitled to a free service.

The financial assessment is not mandatory but without having one, the support will need to be paid for in full, subject to a maximum charge of £60.

There is a capital threshold which is reviewed annually, and in some cases the support will need to be paid for in full. It is worth bearing in mind that not all capital is treated in the same way. For these reasons, it is recommended the person you care for has the financial assessment.

If the person you care for is paying in full for their services, they can choose not to use those offered by social services but to find care themselves.

Adendwm i'r Llawlyfr Gofalwyr, Tachwedd 2014

Sylwch fod y wybodaeth a ganlyn wedi newid o ganlyniad i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

Asesu anghenion gofalwyr

Mae gennych hawl i ofyn am Aseiad Gofalwr os ydych yn gofalu'n ddi-dâl am oedolyn neu blentyn ag anabledd, neu'n bwriadu gwneud hynny. Bydd yr aseiad yn ystyried a oes angen rhoi cymorth i chi fel gofalwr. Wrth gynnal yr aseiad, rhaid i'r cyngor lleol:

- geisio penderfynu sut y mae'ch rôl fel gofalwr yn effeithio ar eich bywyd a pha ganlyniadau rydych yn gobeithio'u sicrhau o ran eich lles eich hun
- asesu a fyddai cefnogaeth, gwasanaethau ataliol, gwybodaeth, cyngor neu gymorth ychwanegol yn eich helpu chi i sicrhau'r canlyniadau lles hynny
- ystyried y canlyniadau lles rydych yn gobeithio'u sicrhau a gweithio gyda chi i wneud hynny

Gwneud cais am Aseiad Gofalwr:

Os ydych yn gofalu am rywun sy'n byw ym Mro Morgannwg, ffoniwch

One Vale ar 01446 700111

Os ydych yn gofalu am berson sy'n byw yng Nghaerdydd, ffoniwch

Cyswllt Cyntaf ar 029 20 234 234.

Asesu Plant a Theuluoedd

Mae plant a phobl ifanc o dan 18 oed sydd ag anghenion gofal, neu ofalwyr o dan 18 oed (gofalwyr ifanc), yn cael eu hasesu'n ôl system wahanol i oedolion, ond dylai'r broses arwain at yr un canlyniadau. Dylid paratoi cynllun personol i bob plentyn yn y teulu; i'r rhai y mae angen gofal arnynt a'r rhai sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu.

Caiff rhieni sy'n gofalu am blentyn ag anabledd o dan 18 oed hefyd eu hasesu'n ôl y system hon. Fodd bynnag, os nad ydych yn credu bod eich anghenion chi eu hystyried yn ystod yr aseiad hwnnw, mae gennych hawl i ofyn am Aseiad Gofalwr ar wahân, yn enwedig os na chafodd eich anghenion addysg, cyflogaeth a hyfforddiant eu hystyried.

I gael aseiad, ffoniwch:

Bro Morgannwg - One Vale ar 01446 700111

Caerdydd – Pwynt Cyswllt Gwasanaethau Plant ar 029 2053 6490

Meini prawf cymhwysedd

Cyn i'r cyngor lleol ddarparu cymorth, neu drefnu i wneud hynny, rhaid bodloni meini prawf cymhwysedd sy'n seiliedig ar anghenion. Rhaid i'r anghenion hyn fod yn gysylltiedig â'r canlyniadau lles sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau, sef:

- y gallu i ofalu amdanoch chi'ch hun neu i gyflawni tasgau bob dydd yn y cartref
- diogelwch rhag cael eich cam-drin neu'ch esgeuluso
- y gallu i gymryd rhan mewn gwaith, addysg, cyrsiau dysgu neu weithgareddau hamdden
- cynnal neu feithrin perthynas deuluol neu berthynas bersonol arwyddocaol arall
- meithrin a chynnal cysylltiadau cymdeithasol a bod yn rhan o'r gymuned
- cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn

Mae'r rheoliadau hyn yn nodi y byddwch yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd os na allwch ddiwallu'ch anghenion:

- ar eich pen eich hun
- gyda chymorth eraill sy'n barod i roi'r cymorth hwnnw i chi, neu
- gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned sydd ar gael i chi; ac
- os ydych yn annhebygol o sicrhau'ch canlyniadau personol oni bai bod y cyngor yn darparu, neu'n trefnu i ddarparu, gofal a chymorth i ddiwallu'ch anghenion

Talu am wasanaethau

Os penderfynir, yn dilyn asesiad, fod y person rydych yn gofalu amdano'n gymwys i gael gwasanaethau, mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo neu iddi gyfrannu at y costau. Ni all neb ofyn i chi gyfrannu at gost y gwasanaethau a gaiff y person rydych yn gofalu amdano ond, os ydych wedi priodi, neu os ydych yn bartneriaid, caiff unrhyw incwm neu gynilion sydd gennych ar y cyd ei ystyried. Mae cost gwasanaethau'n amrywio, a chodir tâl yn ôl y gallu i dalu ac mae'n bosibl na fydd yn rhaid talu dim.

Nid oes rhaid cael asesiad ariannol ond, os na chaiff ei gynnal, bydd yn rhaid talu'n llawn am y gwasanaeth, hyd at yr uchafswm o £60.

Mae trothwy cyfalaf sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn ac, weithiau, bydd yn rhaid talu'n llawn am y cymorth a gaiff ei ddarparu. Mae'n werth cofio nad yw pob cyfalaf yn cael ei drin yr un fath. Oherwydd hyn, rydym yn argymhell bod y person rydych yn gofalu amdano'n cael asesiad ariannol.

Os yw'r person rydych yn gofalu amdano'n talu'n llawn am wasanaethau, gall ddewis peidio â defnyddio'r rheini y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu cynnig, a chael hyd i ddarparwr gwasanaethau ei hun.